

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17



System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Cynnwys

Datganiad y Prif Weithredwr	3
Crynodeb Gweithredol	4
Canfyddiadau Allweddol	4
Cyflwyniad	5
Polisi ynghylch Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	6
System Rheoli'r Amgylchedd	7
Agweddau ac Effeithiau	8
Adolygu Targedau 2016-17	9
Perfformiad mewn perthynas â'r Amgylchedd	
Ynni	12
Cludiant	17
Gwastraff	19
Da Byw Glynllifon	21
Plannu Coed yng Nglynllifon	21
Celloedd ffotofoltäig	22
Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	23
Dŵr	24
Papur	26
Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth	27
Atal Llygredd	27
Y Gadwyn Gyflenwi	27
Deddfwriaeth	28
Archwiliadau	28
Bioamrywiaeth	29
Ynni Adnewyddadwy	29
Y Gymuned	30
Grŵp Ffocws Amgylcheddol	32
Cyfathrebu	32
Targedau i'r Dyfodol	32
Amcanion a Thargedau 2017-18	33

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016-17 Grŵp Llandrillo Menai ar ei System o ran Rheoli'r Amgylchedd.

Mae'r Grŵp wedi gweithredu rhaglen o gynlluniau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd dros gyfnod o flynyddoedd, ac rwy'n falch o'r cynnydd gwirioneddol sy'n cael ei gynnal ledled y colegau.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i barhau ar Lefel 5 o ran Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016).

Yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwr darparwr addysg bellach mwyaf Cymru, rwyf wedi ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol y Grŵp, gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hyd eithaf ein gallu, ac yn bwysicach na dim, gan leihau effaith ecolegol y Grŵp.

Llofnodwyd



Dafydd Evans

Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Crynodeb Gweithredol

Yn yr adroddiad hwn, sonnir am berfformiad amgylcheddol Grŵp Llandrillo Menai yn ystod 2016-17.

Canfyddiadau Allweddol

Yn 2016-17:

- Defnyddiodd y Grŵp, 13,186,763 kWh o ynni, lleihad o 0.9% o'i gymharu â 2015-16. Cyfanswm cost yr ynni oedd £1,032,913 – arbediad o £69,057 o'i gymharu â 2013/14. Roedd hyn yn cynnwys:

Cynnydd o 0.5% yn y nwy a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp

Lleihad o 3% yn y trydan a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp

Lleihad o 4% yn y pelenni pren a ddefnyddiwyd ym moeler y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC)

Cynnydd o 0.5% yn y propan a ddefnyddiwyd yng Nglynllifon.

- Cafwyd lleihad o 26.2% yn y milltiroedd a deithiodd staff yng ngheir y coleg a lleihad o 20.8% yn y defnydd o fysiau mini'r coleg. Cafwyd cynnydd o 1.8% yn y milltiroedd a deithiodd staff yn eu cerbydau eu hunain, sef cyfanswm o 1,071,294 milltir. Y gost yn sgil staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg oedd £463,094, sef cynnydd o £8,830.
- Cynhyrchodd y Grŵp 807 tonnell o wastraff, gan ailgylchu 692 tonnell ohono. Cafwyd cynnydd o 1% yn y gwastraff o gynhyrchwyd gan y Grŵp o'i gymharu â 2015-16, ac ailgylchwyd 86% o wastraff ar draws y Grŵp yn 2016-17, sef yr un ganran ag yn 2015-16.
- Defnyddiwyd 45,687m³ o ddŵr, sef lleihad o 17,640m³ o'i gymharu â 2015-16, sef arbediad o £24,099.
- Defnyddiwyd 12% yn llai o bapur ar gyfer argraffwyr a llungopiwyd o'i gymharu â 2015-16.
- Cynhyrchodd da byw Glynllifon 553 tonnell yn llai o allyriadau CO₂.
- Enillwyd 3.2 tonnell o allyriadau carbon yn sgil plannu coed yng Nglynllifon a chynhyrchu ynni o gelloedd ffotofoltäig yng Nghanolfan MBEC ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.
- Cynhyrchwyd 5,011 tonnell o allyriadau CO₂, sef gostyngiad o 0.6% o'i gymharu â 2015-16

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Cyflwyniad

Fis Ebrill 2012, unodd Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai i ffurfio Grŵp Llandrillo Menai. Yn sgil yr uno, crëwyd Sefydliad Addysg Bellach mwyaf Cymru ac un o grwpiau colegol AB mwyaf y Deyrnas Unedig. Mae'r Grŵp yn cyflogi 2,100 o staff ac mae'n darparu cyrsiau i tua 34,000 o fyfyrwyr ledled pedair sir, sef siroedd Dinbych (Y Rhyl a Dinbych), Conwy (Llandrillo-yn-Rhos ac Abergele), Ynys Môn (Llangefni a Chaergybi) a Gwynedd (Bangor, Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon a Chaernarfon).

Anela'r Grŵp at effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol, ac anoga staff a myfyrwyr i gefnogi'r genhadaeth hon. Un o nodau eraill y Grŵp yw paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle, gan eu gwneud yn ymwybodol o faterion amgylcheddol.

Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Grŵp

Bydd y Grŵp yn

"Rheoli ei wasanaethau, ei adnoddau a'i gyfleusterau mewn ffordd gynaliadwy"

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Y POLISI YNGHYLCH CYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD

Ffurfiwyd Grŵp Llandrillo Menai fis Ebrill 2012 yn dilyn uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae gan y Grŵp safleoedd yn siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd ac Ynys Môn, ynghyd â darpariaeth mewn nifer o leoliadau yn y gymuned. Darpara'r Grŵp amrediad eang o addysg a hyfforddiant llawn amser a rhan-amser, ar lefel Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Cyfloga tua 2,100 o aelodau staff a bydd tua 34,000 o fyfyrwyr yn cofrestru ar ei gyrsiau bob blwyddyn.

Ymdrecha Grŵp Llandrillo Menai i addysgu ei staff a'i fyfyrwyr am faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd, yn lleol ac yn fyd-eang, gan feithrin eu hymwybyddiaeth o'r sefydliad fel asiant amgylcheddol.

Amcanion y Polisi:

Gwneud cynaliadwyedd, yr arferion amgylcheddol gorau a dinasysddiaeth fyd-eang yn rhan o bob agwedd ar fywyd y Coleg.

Sicrhau y cydymffurfir â phob deddfwriaeth berthnasol ac y mabwysiedir polisiau a fydd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Sicrhau y datblygir ac y mabwysiedir trefn o ran rheoli'r amgylchedd a fydd yn atal llygredd ac yn sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad amgylcheddol y Coleg.

Hybu ymwybyddiaeth pawb yn y Coleg mewn perthynas â defnyddio ynni a dŵr, gan eu hannog i wneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau hyn.

Defnyddio llai o ddeunyddiau ble bynnag y bo modd, ac ymestyn oes deunyddiau ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Ailgylchu neu aildefnyddio deunyddiau ble bynnag y bo modd a chael gwared ar wastraff yn y modd sy'n lleiaf niweidiol i'r amgylchedd.

Sicrhau bod y Coleg yn cael cyn lleied o effaith negyddol â phosibl ar yr amgylchedd lleol a'i fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r gymuned leol a'i hamgylchedd.

Sicrhau bod holl fyfyrwyr a staff y Coleg yn ymwybodol o faterion amgylcheddol, a darparu amrediad o gyrsiau a hyfforddiant ar bynciau perthnasol.

Sicrhau bod y staff a'r myfyrwyr yn ymwybodol o effeithiau trafndiaeth ar yr amgylchedd, a'u hannog i ddefnyddio dulliau amgen o deithio.

Monitro'n rheolaidd y cynnydd a wneir er mwyn gweld lle gellir gwneud gwelliannau.

Llofnodwyd



Dafydd Evans (Prif Weithredwr)

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

System Rheoli'r Amgylchedd

Cynlluniwyd System y Grŵp o ran Rheoli'r Amgylchedd er mwyn:

- Sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol
- Codi ymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol y Grŵp
- Lleihau'r effeithiau a gwella perfformiad yn barhaus.

Y Prif Weithredwr fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am System Rheoli'r Amgylchedd, gan gynnwys y Polisi Amgylcheddol, ac am ddarparu adnoddau digonol i weithredu a chynnal y system ar sail strategol.

Adolygir System Rheoli'r Amgylchedd yn flynyddol. Wrth adolygu, eir i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Perfformiad amgylcheddol
- Adroddiadau archwilio a diffygion o ran cydymffurfio
- Cadarnhau camau ataliol
- Cyflawniad o'i gymharu ag amcanion a thargedau cyfredol
- Pennu amcanion a thargedau newydd
- Gwirio'r Polisi ynghylch yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y Llawlyfr Amgylcheddol, y Gweithdrefnau a'r Cyfarwyddiadau Gwaith, i edrych a ydynt yn dal yn berthnasol i bolisiau ac amcanion cyffredinol y Grŵp.
- Yr anghenion o ran hyfforddiant amgylcheddol
- Agweddau ac effeithiau arwyddocaol
- Effeithiolrwydd y prosiectau amgylcheddol y mae'r Grŵp wedi ymgymryd â hwy.

Mae'r dogfennau a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Grŵp yn dal i fodloni gofynion Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gael ar fewnwyd y Grŵp.

Ceir copi o'r adroddiad hwn, ynghyd â gwybodaeth bellach am Goleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Merion-Dwyfor, ar wefan y Grŵp, sef www.gllm.ac.uk.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Agweddau ac Effeithiau

Nodwyd y prif weithgareddau sy'n berthnasol i weithrediadau'r Grŵp yn yr adolygiad amgylcheddol. Ymhlith y gweithgareddau sy'n creu'r agweddau a'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, mae: y defnydd o drydan a nwy, cludiant, y defnydd o bapur, cynhyrchu gwastraff a dŵr.

Caiff arwyddocâd yr agweddau a'r effeithiau eu mesur drwy ddefnyddio matrices blaenoriaethu. Datblygwyd system "goleuadau traffig" i flaenoriaethu'r effeithiau. Mae golau coch yn dynodi bod yr effaith yn arwyddocaol, mae golau oren yn dynodi y gallai'r effaith ddatblygu i fod yn arwyddocaol, ac mae golau gwyrdd yn dynodi nad yw'r effaith yn cael ei ystyried yn arwyddocaol. Cofnodir yn rhain yn y Gofrestr Agweddau ac Effeithiau.

Caiff yr agweddau a'r effeithiau mwyaf arwyddocaol eu cynnwys yn yr amcanion a'r targedau blynyddol, yn dilyn adolygiad blynyddol.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Adolygu Targedau 2016-17

- ❖ Lleihau allyriadau carbon deuocsid yn sgil defnyddio trydan, ar sail data 2015-16:

Y targed a bennwyd o ran lleihau allyriadau carbon a gynhyrchir yn sgil defnyddio trydan oedd lleihad o 1% ar bob safle.

Gwelwyd lleihad cyffredinol o 3% yn y trydan a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp; Defnyddiwyd 5% yn llai o drydan yng Ngholeg Llandrillo; Defnyddiwyd 5% yn llai o drydan yng Ngholeg Menai; defnyddiwyd 5% yn fwy o drydan ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio nwy, ar sail data 2015-16:

Y targed a bennwyd ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio nwy oedd lleihad o 5% ar bob safle.

Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 0.5% yn y nwy a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp; defnyddiwyd 1% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Llandrillo, 5% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 2% yn llai o nwy ar safleoedd Coleg Menai.

Felly, ni chyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio LPG

Y targed a bennwyd oedd lleihau 1% ar y defnydd a wnaed o LPG yng Nglynllifon, ar sail data 2015-16

Defnyddiwyd 5% yn fwy o bropan

Felly, ni chyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon a gynhyrchir yn sgil teithio ar fusnes y Grŵp.

Y targed a bennwyd oedd lleihau 1% ar y milltiroedd a deithiwyd ar fusnes y Grŵp yn 2015-16.

Cafwyd cynnydd o 1.8% yn y milltiroedd a deithiodd staff yn eu cerbydau eu hunain.

Cafwyd lleihad o 20.8% yn y milltiroedd a deithiodd staff ym mysiau mini'r Coleg a lleihad o 26.2% yn y milltiroedd a deithiodd staff yng ngheir y Coleg.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Yn gyffredinol, cafwyd lleihad o 4.8% yn y milltiroedd a deithiwyd yn yr holl gerbydau.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith

Y targed a bennwyd oedd parhau i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith.

Parheir i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith. Hyd at fis Awst 2017, roedd 111 aelod o staff wedi ymuno â'r cynllun. Roedd 15 o'r rhain wedi ymuno â'r cynllun yn ystod 2015-16.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith

Y targed a bennwyd oedd parhau i hyrwyddo'r cynllun rhannu car ymhlith staff a myfyrwyr a chynnal arolwg yn 2016-17 o ddulliau teithio staff a myfyrwyr.

Parheir i hyrwyddo'r Cynllun Rhannu Ceir ac ym mis Medi 2017 cynhaliwyd arolwg o ddulliau teithio staff a myfyrwyr.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil defnyddio dŵr

Y targed a bennwyd oedd lleihau 1% ar y defnydd a wnaed o ddŵr, ar sail data 2015-16.

Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 28% yn llai o ddŵr.

Defnyddiwyd 4% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Llandrillo, 48% yn llai ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 10% yn fwy ar safleoedd Coleg Menai.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil defnyddio papur

Y targed a bennwyd oedd lleihau 1% ar faint o bapur a ddefnyddiwyd, ar sail data 2015-16.

Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 12% yn llai o bapur.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

- ❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil gwaredu gwastraff drwy ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Y targed a bennwyd oedd cynyddu'r gwastraff a ailgylchir i 99% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Llandrillo, 55% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 95% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Menai.

Ailgylchwyd 98% o'r gwastraff ar safleoedd Coleg Llandrillo.

Ailgylchwyd 47% o'r gwastraff ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor

Ailgylchwyd 90% o'r gwastraff yng Ngholeg Menai.

Felly, ni chyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd

Y targed a bennwyd oedd parhau i blannu gwrychoedd a choed cymysg erbyn mis Awst 2017 a thu hwnt.

Mae'r gwaith o blannu gwrychoedd a choed yn mynd rhagddo yng Nglynllifon, ac ymgwymerwyd â phrosiect plannu coed sylweddol yn 2016/17, gyda 5,000 o goed cymysg yn cael eu plannu dros 2.5 hectar.

Felly, cyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Codi ymwybyddiaeth staff o'r amgylchedd

Y targed a bennwyd oedd cynnal sgysiau personol a sgysiau grŵp ym maes Codi Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd mewn adrannau yn ystod 2016/17.

Rhodddwyd sgysiau codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd i staff newydd ledled y Grŵp yn 2016/17.

Felly, cyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Ymgysylltu â'r gymuned leol a chyfrannu ati

Y targed a bennwyd oedd bod dysgwyr y Grŵp yn cynnal o leiaf 20 o weithgareddau lle'r oeddent yn defnyddio'u sgiliau yn y gymuned leol yn 2016/17.

Cymerodd dysgwyr y Grŵp ran mewn dros 20 o weithgareddau.

Felly, cyrrhaeddwyd y targed.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Perfformiad mewn perthynas â'r Amgylchedd

Ynni

Perfformiad 2016-17

Nwy

	kWh		CO2 (kg)	
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17
Coleg Llandrillo	2,688,163 £68,816 (69 kWh/m ²)	2,725,532 £78,631 (71 kWh/m ²)	497,238 (12.8 kg CO ₂ /m ²)	504,150 (13.9 kg CO ₂ /m ²)
Coleg Meirion-Dwyfor	1,444,508 £51,043 (92 kWh/m ²)	1,515,944 £55,702 (97 kWh/m ²)	267,195 (17.1 kg CO ₂ /m ²)	280,409 (18.0 kg CO ₂ /m ²)
Coleg Menai	3,089,611 £112,509 (90 kWh/m ²)	3,014,292 £117,960 (90 kWh/m ²)	571,495 (16.7 kg CO ₂ /m ²)	557,562 (16.6 kg CO ₂ /m ²)
Cyfanswm	7,222,282 £232,368 (81 kWh/m²)	7,255,768 £252,293 (83 kWh/m²)	1,335,928 (15 kg CO₂/m²)	1,342,121 (15.4 kg CO₂/m²)

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Defnyddiwyd 1% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Llandrillo, 5% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 2% yn llai o nwy ar safleoedd Coleg Menai. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 0.5% yn y nwy a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp.

Arweiniodd y cynnydd yn y defnydd o nwy at gost ychwanegol o £19,925 o'i gymharu â 2015/16.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Trydan

	kWh		CO2 (kg)	
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17
Coleg Llandrillo	2,752,877 £331,601 (73 kWh/m2)	2,625,343 £358,539 (71 kWh/m2)	1,360,637 (36.1 kg CO2/m2)	1,297,602 (35 kg CO2/m2)
Coleg Meirion-Dwyfor	970,349 £159,050 (47 kWh/m2)	1,028,091 £165,044 (50 kWh/m2)	479,605 (22 kg CO2/m2)	508,144 (23 kg CO2/m2)
Coleg Menai	1,805,079 £228,442 (53Wh/m2)	1,722,731 £246,369 (51 kWh/m2)	892,178 (26 kg CO2/m2)	851,477 (25 kg CO2/m2)
Cyfanswm	5,528,305 £719,093 (60 kWh/m2)	5,376,165 £769,952 (59 kWh/m2)	2,732,420 (30 kg CO2/m2)	2,657,223 29 kg CO2/m2)

Defnyddiwyd 5% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Llandrillo. Ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor defnyddiwyd 6% yn fwy o drydan a 5% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Menai.

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 3% yn llai o drydan ar draws y Grŵp, ond er gwaethaf yr arbedion cafwyd cynnydd o £50,554 yn y gost.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Propan

Yng Nglynllifon, defnyddir propan i wresogi a choginio

	litrau				CO2(kg)	
	2015-16		2016-17		2015-16	2016-17
Glynllifon	54,245	£12,793	56,694	£14,698	81,205	84,871

Defnyddiwyd 5% yn fwy o bropan ar gost ychwanegol o £1,905 o'i gymharu â 2015/16.

System Rheoli'r Amgylchedd Adroddiad Blynyddol 2016/17

Pelenni Pren

Pelenni pren yw'r brif ffynhonnell gwresogi yn adeilad Y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC) ar safle Llandrillo-yn-Rhos.

	kWh				CO2(kg)	
	2015-16		2016-17		2015-16	2016-17
MBEC	177,812	£9,667	170,002	£7,379	2,099	2,012

Defnyddiwyd 4% yn llai o belenni pren ac arbedwyd £2,288.

Defnyddir boeler nwy i gynhesu dŵr yn y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC) yn ystod misoedd yr haf gan fod hyn yn fwy effeithlon na thanio'r boeler biomas.

Defnyddir boeler sglodion pren i gynhesu'r bloc addysgu newydd yng Nglynllifon. Cynaeafir y sglodion pren o blanhigfa goed y Grŵp ac felly mae'r myfyrwyr yn ymwneud â thyfu a chynhyrchu'r tanwydd ar gyfer eu hadeilad.

Yn y Ganolfan Ynni yn Llangefni, defnyddir gwres o'r ddaear i wresogi'r adeilad.

Yn y Ganolfan Brifysgol yn Llandrillo-yn-Rhos, defnyddir celloedd ffotofoltäig i gynhyrchu ynni.

Gosodwyd celloedd ffotofoltäig ar holl adeiladau newydd ystâd y Grŵp.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Cludiant

Perfformiad 2016-17

Cludiant Myfyrwyr

Mae'r Grŵp, ynghyd ag Awdurdodau Addysg Lleol Siroedd Conwy, Dinbych a Fflint, yn darparu cludiant am ddim i fyfyrwyr sydd dan 18 oed ac sy'n byw fwy na thair milltir o'r safle colegol y maent yn ei fynychu.

Cerbydau'r Coleg a'r Milltiroedd a Deithir mewn Cerbydau Preifat

Dull Cludo	2015-16 (milltiroedd)	2016/17 (milltiroedd)	2015-16 (kgCO ₂ e)	2016/17 (kgCO ₂ e)
Ceir y Coleg (gan gynnwys faniau bychan)	182,146	134,400	43,093	31,797
Bysiau mini (gan gynnwys faniau mawr)	207,701	164,400	77,043	60,981
Cerbydau preifat (y Grŵp cyfan)	1,071,294	1,091,008	276,908	282,004
Cyfanswm	1,461,141	1,389,808	397,044	374,782

Dengys y ffigurau bod staff wedi teithio 26.2% o filltiroedd yn llai yng ngheir a faniau bychan y Coleg a 20.8 o filltiroedd yn llai ym mysiau mini a faniau mawr y Coleg.

Cafwyd cynnydd o 1.8% yn y milltiroedd a deithiodd staff yn eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg.

Yn gyffredinol, cafwyd lleihad o 4.8% yn y milltiroedd a deithiwyd yn yr holl gerbydau.

Mewn ymdrech i leihau'r milltiroedd a deithir ar fusnes y Coleg, o fis Medi 2016 penderfynwyd y byddai'r holl adrannau ar safle Llandrillo-yn-Rhos yn talu o gyllideb eu hadran am ddefnyddio cerbydau'r Coleg. Dyrannwyd arian ychwanegol i'r adrannau ar gyfer hyn. Roedd hyn yn caniatáu i reolwyr reoli sut roeddent yn gwario eu cyllid ac yn lleihau teithio diangen. Gan ragweld y byddai llai o deithio'n digwydd, cafodd nifer ceir y Coleg ar safle Llandrillo-yn-Rhos eu lleihau. Yn dilyn adolygiad o geir y Coleg yn Awst 2017, cafodd nifer bysiau mini'r coleg eu lleihau.

Yn 2016-17, y gost yn sgil staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg oedd £463,094, sef cynnydd o £8,830 o'i gymharu â 2015/16.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Darperir mannau diogel i storio beiciau ar bob safle, a threfnwyd gyda rhai siopau bod staff sy'n prynu beiciau'n cael gostyngiad o 10%. Er mwyn annog staff i feicio i'r gwaith, mae'r Grŵp wedi sefydlu cynllun beicio i'r gwaith. Mae cyfanswm o 111 o aelodau staff wedi ymuno â'r cynllun ers ei sefydlu, a 15 o'r rhain wedi ymuno yn 2016-17.

Cyflwynwyd cynllun rhannu ceir i staff fis Medi 2014 ac fe'i cyflwynwyd i fyfyrwyr fis Medi 2015.

Mae'r Grŵp wedi sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael tocyn wythnos i deithio ar fws Arriva am bris gostyngol.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Gwastraff

Perfformiad 2016-17

Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai ailgylchir popeth yn gymysg; yng Ngholeg Llandrillo, caiff y gwastraff ei wahanu. Mae Awdurdodau Lleol yn gwahaniaethu o ran sut maent yn gwaredu gwastraff cyffredinol. Ar gampysau Gwynedd a Môn, anfonir yr holl wastraff cyffredinol i safleoedd tirlenwi, ond ar gampysau siroedd Conwy a Dinbych, caiff y gwastraff cyffredinol ei ddidoli ymhellach. Felly, bydd ffigurau ailgylchu siroedd Conwy a Dinbych yn uwch na rhai Gwynedd a Môn.

Safleoedd Coleg Llandrillo

	Cyfanswm y gwastraff mewn kg	Gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi kg	Gwastraff a ailgylchir kg	% y gwastraff a ailgylchwyd 2016/2017
Llandrillo-yn-Rhos	218,953	4,978	213,975	98%
Y Rhyl	85,612	1,649	83,963	98%
Abergele	8,104	191	7,913	98%
Cyfanswm	312,669	6,818	305,851	98%

Safleoedd Coleg Menai

	Cyfanswm y gwastraff mewn kg	Gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi kg	Gwastraff a ailgylchir kg	% y gwastraff a ailgylchwyd 2016/2017
Llangefni	231,537	9,678	221,859	96%
Caergybi	2,980	350	2,630	88%
Friars	11,961	382	11,579	97%
Parc Menai	18,341	839	17,502	95%
Prif Safle Bangor	47,691	1,031	46,660	98%

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Caernarfon	3,690	2,393	1,297	35%
Cyfanswm	316,200	14,673	301,527	95%

Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor

	Cyfanswm y gwastraff mewn kg	Gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi kg	Gwastraff a ailgylchir kg	% y gwastraff a ailgylchwyd 2016/2017
Pwllheli (gan gynnwys yr Hafan)	41,359	23,735	17,624	43%
Glynllifon	60,910	40,271	20,639	42%
Dolgellau (gan gynnwys Marian Mawr)	76,030	30,107	45,923	58%
Cyfanswm	178,299	94,113	84,186	47%

Roedd canran y gwastraff a ailgylchwyd ar safleoedd Coleg Llandrillo'r un fath ag yn 2015/16 sef 98%. Ar safleoedd Coleg Menai cynyddodd canran y gwastraff a ailgylchwyd o 93% i 95%, ac ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor lleihaodd y ganran o 50% i 47% o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar safleoedd Coleg Llandrillo a Choleg Menai, cynhyrchodd safleoedd Coleg Llandrillo 4% yn llai o wastraff. Serch hynny, ar draws y Grŵp cynhyrchwyd 1% yn fwy o wastraff o'i gymharu â 2015-16.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Da Byw Fferm Glynllifon

	Nifer bras a stociwyd		Nifer bras a stociwyd	
Da Byw	2015-16	2015-16 (kgCO ₂ e)	2016-17	2016-17 (kgCO ₂ e)
Y Fuches Odro	270	320,454	350	415,403
Y Fuches Bîff	130	83,200	50	32,000
Moch	250	21,696	500	43,392
Defaid	550	59,078	550	59,078
Ŵyn	12	248	16	331
Ceffylau	10	3,190	10	3,190
Cyfanswm		487,866		553,394

Cynhyrchodd da byw Glynllifon 553 tonnelli o allyriadau.

Plannu Coed yng Nglynllifon

Math o goed	Arwynebedd (hectarau)	Enillion 2015-16 (kgCO ₂ e)	Arwynebedd (hectarau)	Enillion 2016-17 (kgCO ₂ e)
Pren caled/pren meddal	2015-16		2016-17	
Pren caled	4	784	1.5	294
pren meddal	1	370	1	370
Cyfanswm	5	1,154	2.5	664

Yng Nglynllifon, plannwyd oddeutu 5,000 o goed dros 5 hectar. Mae'r rhywogaethau coed yn cynnwys: Derw Mes Di-goes, Coed Ceirios, Bedw, Cyll, Celyn a phrennau meddal; Pyrwydd Stica, Pyrwydd Norwy, Pinwydd yr Alban a Gwern. Mae'r carbon a enillir o blannu'r coed yn hafal i 664kgCO₂e.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Celloedd ffotofoltäig 2016/17

Campws Llandrillo-yn-Rhos

Celloedd PV MBEC

KWh	Enillion 2016-17 (kgCO ₂ e)	£ Refeniw
5,244	2,592	£2,438

Cynhyrchodd celloedd PV adeilad MBEC 5,244KWh ac incwm o £2,438. Dyma'r unig banel PV sy'n cynhyrchu incwm i'r Coleg.

Yn y dyfodol, bydd Adroddiadau Blynyddol yn cofnodi'r ynni a enillwyd o'r holl baneli, ond nid oes cofnodion ar gael am 2016.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Perfformiad 2016-17

Cyfrifwyd yr allyriadau carbon deuocsid ar sail yr ynni a ddefnyddiwyd yn yr adeiladau, ac o gludiant a da byw

Agwedd	Kg CO2 2015-16	Kg CO2 2016-17
Trydan	2,732,420	2,657,223
Nwy	1,335,928	1,342,121
LPG	81,205	84,871
Pelenni pren	2,099	2,012
Cludiant	397,044	374,782
Da Byw Fferm Glynllifon	487,866	553,394
Yr hyn a enillir o Blannu Coed yng Nglynllifon	-1,154	-664
Paneli Ffotofoltäig		-2,592
Cyfanswm	5,035,408	5,011,147

Yn 2016-17, cafwyd gostyngiad o 0.5% mewn allyriadau carbon o gymharu â 2015-16.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Dŵr

Perfformiad 2016-17

Safleoedd Coleg Llandrillo

Safle	2015-16		2016-17	
	Defnydd (m3)	cost	Defnydd (m3)	cost
Llandrillo-yn-Rhos	16,639	£49,730	13,264	£40,739
Y Rhyl	2,918	£9,315	3,012	£9,746
Dinbych	906	£2,737	781	£2,403
Cyfanswm	20,463	£61,782	17,057	£52,888

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 17% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Llandrillo, arbediad o £8,894 o'i gymharu â 2015/16.

Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor

Safle	2015/16		2016/17	
	Defnydd (m3)	cost	Defnydd (m3)	cost
Dolgellau (gan gynnwys Marian Mawr)	3,156	£11,198	2,071	10,937
Pwllheli (gan gynnwys yr Hafan)	954	£3,638	924	£3,622
Glynllifon	28,053	£36,813	13,856	£18,516
Cyfanswm	32,163	£51,649	16,851	£33,075

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 48% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor, arbediad o £18,574 o'i gymharu â 2015/16. Defnyddiwyd mwy o ddŵr nag arfer yng Nglynllifon yn 2015/16 oherwydd sawl achos o ddŵr yn gollwng. Dengys y ffigurau am 2016/17 bod yr achosion hyn o ddŵr yn gollwng yn awr wedi'u datrys.

System Rheoli'r Amgylchedd Adroddiad Blynyddol 2016/17

Safleoedd Coleg Menai

Safle	2015-16		2016-17	
	Defnydd (m3)	cost	Defnydd (m3)	cost
Bangor	4,276	£14,475	3,845	£13,334
Llangefni	3,403	£11,348	4,786	£15,559
Parc Menai	1,064	£4,518	1,055	£4,339
Friars, Bangor	1,122	£3,611	1,316	£4,215
Caernarfon	659	£2,844	675	£2,986
Caergybi	177	£623	102	£355
Cyfanswm	10,701	£37,419	11,779	£40,788

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 10% yn fwy o ddŵr ar safleoedd Coleg Menai. Achosodd y gwaith adeiladu yn Llangefni i ddŵr ollwng ac mae hyn yn cael ei ddangos yn y ffigurau. Erbyn hyn mae'r broblem wedi cael ei datrys.

Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 28% yn llai o ddŵr, sef arbediad o £24,089 o'i gymharu â 2015/16.

Yn adeilad y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC) yn Llandrillo-yn-Rhos, yn PA@G yng Nglynllifon ac yn y Ganolfan Dechnoleg yn Llangefni, cynaeafir dŵr glaw.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Papur

Perfformiad 2016-17

	Y papur a ddefnyddiwyd (rimau)	
	2015-16	2016-17
Safleoedd Coleg Llandrillo	12,055	10,535
Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor	4,660	4,275
Safleoedd Coleg Menai	7,030	6,100
Cyfanswm	23,745	20,910

Mae'r holl Golegau'n defnyddio llai o bapur. Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 12% yn llai o bapur o gymharu â 2015/16.

Parheir i roi lwfans argraffu i fyfyrwyr a chaiff staff wybod faint mae'n ei gostio bob tro y byddant yn argraffu dogfen. Mae'r argraffwyr wedi'u rhagosod i argraffu ar ddwy ochr y papur.

Ledled y Grŵp, mae dyfeisiau amlswyddogaethol ychwanegol nad oes cyfyngu ar eu defnydd. Erbyn hyn, oherwydd newid yn y drefn gaffael, mae adrannau'n archebu papur yn uniongyrchol drwy Lyreco.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Perfformiad 2016-17

Mae'r Rheolwr Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd, y Cydlynnydd Amgylcheddol a staff cymwys eraill yn darparu hyfforddiant cyffredinol i staff a myfyrwyr ym maes ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.

Mae'r holl ofalwyr a staff arlwygo wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â Gollyngiadau a Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Yn ystod eu cyfnod cynefino, caiff staff newydd hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd.

Atal Llygredd

Perfformiad 2016-17

Datblygwyd cynllun cyffredinol o ran ymateb i ollyngiadau ar gyfer safleoedd lle'r aseswyd bod y risg o lygru yn sgil gollyngiadau yn isel. Mae'r Grŵp wedi datblygu Cynlluniau Llygredd ar gyfer Llandrillo-yn-Rhos, Y Rhyl, Glynllifon a Llangefni, ac mae'r staff allweddol wedi cael hyfforddiant i ymdrin â gollyngiadau.

Mae pob maes yn cadw rhestrau o gemegion ac yn storio cemegion dan glo mewn cypyrddau pwrpasol. Cedwir citiau gollyngiadau a defnyddiau amsugno gollyngiadau mewn llefydd priodol.

Y Gadwyn Gyflenwi

Perfformiad 2016-17

Mae'r Rheolwr Caffael yn gyfrifol am fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd wrth ddyfarnu contractau cyflenwi.

Rhaid i bob contractwr adeiladu fod yn Adeiladydd Ystyriol cofrestredig. Caiff pob safle sydd wedi cofrestru ar y Cynllun ei fonitro gan weithiwr profiadol o'r diwydiant er mwyn asesu ei berfformiad yn erbyn wyth pwynt y Cod Ymarfer Ystyriol, sef Ystyried Eraill, Ystyried yr Amgylchedd, Glendid, Bod yn Gymydog Da, Parchu Eraill, Diogelwch, Bod yn Gyfrifol a Bod yn Atebol.

Yn unol â'r adran sy'n ymwneud â'r amgylchedd, rhaid i'r contractwr fod yn ymwybodol o effaith y safle ar yr amgylchedd, gan leihau cymaint â phosibl ar effeithiau'r sŵn, y golau a'r llygredd aer. Dylid gwneud ymdrech i ddethol a defnyddio adnoddau lleol bob tro posibl. Dylid rhoi sylw i reoli gwastraff: lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu defnyddiau bob tro posibl.

Mae gofyn i gontractwyr fynd i sesiwn gynefino, lle cânt wybod am bryderon y Grŵp o safbwynt yr amgylchedd.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Deddfwriaeth

Perfformiad 2016-17

Mae'r Grŵp wedi llunio Cofrestr o Ofynion Cyfreithiol, sy'n nodi'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i'w weithrediadau.

Bydd y Cydlynnydd Amgylcheddol yn diweddarau'r gofrestr yn ôl y galw, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan Croner, Tarian ac IEMA. Bydd y Grŵp yn parhau i gwrdd â'i Ddyletswydd Gofal wrth waredu gwastraff, drwy ddefnyddio cludwyr trwyddedig a thrwy gadw Nodiadau Trosglwyddo am y cyfnod gofynnol.

Archwiliadau

Perfformiad 2016-17

Cynhaliwyd yr archwiliadau a ganlyn yn 2016-17

Chwefror 2017

Adeiladu (Marian Mawr): Categori: Boddhaol

Morol (Hafan): Categori: Boddhaol

Coleg Pwllheli: Categori: Boddhaol

Celf a Cherameg (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Trin Gwallt a Therapi Harddwch (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Arlwyo (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Gofalu am Anifeiliaid Bychan a PA@G (Glynllifon): Categori: Boddhaol

Fferm (Glynllifon): Categori: Boddhaol

Mawrth 2017

Arlwyo (Llandrillo-yn-Rhos): Boddhaol

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Bioamrywiaeth

Perfformiad 2016-17

Mae gan bob un o safleoedd y Grŵp amgylchedd unigryw. Ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, datblygwyd llain bywyd gwyllt ar un o'r ffiniau a cheir ardal gadwraeth wrth ymyl y Ganolfan Brifysgol newydd; mae campws Y Rhyl y drws nesaf i safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae rhan o gampws Glynllifon yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac yn ardal cadwraeth arbennig. Gosodwyd blychau ystlumod yn y coed ar y safle. Mae campws Llangefni (Pencraig) yn ffinio ar dir amaethyddol.

Mae'r Grŵp wedi cadw'r corstir ar safle Llandrillo-yn-Rhos. Mae'r myfyrwyr Dysgu'n Annibynnol wedi cymryd ardal y pwll dan eu gofal ac maent yn ei gynnal a'i gadw.

Plannwyd gwrychoedd a choed yng Nglynllifon.

Nod y Grŵp yw cynyddu'r fioamrywiaeth sydd ar ei safleoedd lle bynnag y bo modd.

Ynni Adnewyddadwy

Perfformiad 2016-17

Ceir Uned Technoleg Adnewyddadwy yn Llandrillo-yn-Rhos ac yn Llangefni. Ymhlith y technolegau sydd ar gael, mae:

Celloedd ffotofoltäig, system gwresogi dŵr ag ynni'r haul, a thyrbinau gwynt.

Yn adeilad y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC), defnyddir ynni'r haul i gynhyrchu trydan ac i gynhesu dŵr, a defnyddir pelenni pren i wresogi.

Yn y Ganolfan Brifysgol ar gampws Llandrillo-yn-Rhos ac yng Nghanolfan Cefni ar gampws Llangefni defnyddir paneli solar i gynhyrchu ynni.

Yn adeilad PA@G yng Nglynllifon, defnyddir ynni'r haul i gynhyrchu trydan a defnyddir boeler sglodion pren i wresogi.

Yn y Ganolfan Ynni yn Llangefni, defnyddir gwres o'r ddaear i wresogi'r adeilad, a phaneli solar i gynhyrchu ynni.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Y Gymuned

Perfformiad 2016-17

Mae'r Grŵp yn annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Yn 2016-17, roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

Coleg Menai

1. Drwy gydol 2016/17 cynhaliodd myfyrwyr yr Adran Sgiliau Bywyd a Gwaith nifer o stondinau'n gwerthu eu crefftau gwaith llaw eu hunain i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
2. Bu'r canwr gyfansoddwr o Fôn, Daf Jones, yn bysgio ar gampysau Bangor a Llangefni i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
3. Agorodd myfyrwyr o'r adran Trin Gwallt a Harddwch siop dros dro yng Nghanolfan Deiniol, Bangor i gynnig triniaethau a gwerthu raffl er budd Mind Ynys Môn a Gwynedd.
4. Drwy werthu dreigiau Cymreig a chynnig archwilio cerbydau at y gaeaf, llwyddodd myfyrwyr yr adrannau Weldio a Cherbydau Modur i godi £387 at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
5. Cynhaliodd y myfyrwyr Busnes standin gacennau yn y dderbynfa i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
6. Gyda help ein myfyrwyr Busnes, cynhaliodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr raffl yn y dderbynfa.
7. Gwisgodd myfyrwyr yr adran Fusnes ddillad Nadoligaidd i fynd o gwmpas Bangor i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
8. Helpodd myfyrwyr Twristiaeth gyda'r gwaith o dorri rhododendrons a chlririo ym Mharc Padarn, Llanberis.

Coleg Meirion-Dwyfor

9. Trefnodd myfyrwyr yr adran Sgiliau Bywyd a Gwaith 'Arddwest' i godi arian at Barbara Bus Gwynedd a Mind Ynys Môn a Gwynedd.
10. Cynhaliodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor gwis a gig yng nghantîn Pwllheli i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.
11. Cynhaliwyd marathon ddarllen yn y llyfrgell ar gampws Pwllheli i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Coleg Llandrillo

12. Gwerthodd myfyrwyr y cwrs BTEC Lefel 3 mewn Celf a Dylunio eu crefftau gwaith llaw i godi arian at Mind Aberconwy.
13. Fis Rhagfyr, cynhaliodd myfyrwyr adran y Celfyddydau Perfformio sioe Nadolig gyda'r elw'n mynd i Mind Aberconwy.
14. Perfformiodd myfyrwyr adran y Celfyddydau Perfformio ddigwyddiad fflachdorf yn y dderbynfa i godi ymwybyddiaeth am elusennau iechyd meddwl lleol ac i helpu i godi arian at Mind Aberconwy.
15. Helpodd myfyrwyr yr adran Trin Gwallt a Harddwch yn y Rhyl i godi arian at Mind Dyffryn Clwyd drwy gynnig triniaethau i'r dwylo a'r ewinedd yn nerbynfa'r Rhyl.
16. Cynhaliodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Swyddog Addysg Uwch raffl ar gampws Llandrillo-yn-Rhos er budd Mind Aberconwy.
17. Cafodd dysgwyr ar y cwrs Llwybr at Adeiladu gyfle i gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw Castell Gwrych yn Abergele.
18. Cafodd dysgwyr ar y cwrs Llwybr at Adeiladu gyfle i gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw yr Eglwys Farmor ym Modelwyddan.
19. Cafodd dysgwyr ar y cwrs Llwybr at Adeiladu gyfle i gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw yng Nghymdeithas Chwaraeon Mochdre.

Grŵp Llandrillo Menai

20. Fis Rhagfyr, gwisgodd staff a myfyrwyr eu siwmperi Nadolig i'r gwaith/coleg i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd, Mind Aberconwy a Mind Dyffryn Clwyd.
21. Cynhaliwyd cystadlaethau taflu crempogau ledled y campysau i godi arian at Mind Ynys Môn a Gwynedd, Mind Aberconwy a Mind Dyffryn Clwyd.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Grŵp Ffocws Amgylcheddol

Perfformiad 2016-17

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol traws golegol, a gadeirir gan yr Uwch Gyfarwyddwr (Gwasanaethau Corfforaethol). Mae'r grŵp hwn yn adolygu materion amgylcheddol ac yn ysgogi pawb i gefnogi newidiadau ymddygiadol ar bob safle.

Mae'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol yn adrodd i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd.

Cyfathrebu

Perfformiad 2016-17

Mae cyfathrebu'n rhan bwysig o System Rheoli'r Amgylchedd. Cylchlythyr misol a anfonir ar e-bost at bob aelod o staff yw'r 'Llais'. Yn rheolaidd, cynhwysir eitemau amgylcheddol yn y cylchlythyr hwn. Mewn Llawlyfr Amgylcheddol, sy'n amlinellu materion amgylcheddol yn y Grŵp, cofnodir canlyniadau'r flwyddyn flaenorol, gan awgrymu sut y gall staff wella perfformiad y Grŵp.

Ystyrir ei bod yn hanfodol cynnwys myfyrwyr yn y broses o wneud penderfyniadau, a cheir cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd a'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol.

Bydd y Cydlynnydd Amgylcheddol yn cynnal sgysiau i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd yn adrannau'r Grŵp.

Yn ystod eu cyfnod cynefino, caiff staff newydd hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd.

Targedau i'r Dyfodol

Bydd y Grŵp yn parhau i fodloni gofynion Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Bydd y Grŵp yn parhau i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac yn parhau i wella ei berfformiad amgylcheddol

Bydd y Grŵp yn parhau i annog ei fyfyrwyr i werthfawrogi eu hamgylchedd ac i gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol.

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Amcanion a Thargedau 2017-18

Amcan: Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio trydan

Targed: Defnyddio 1% yn llai o drydan, ar sail data 2016-17

Amcan: Lleihau allyriadau carbon deuocsid yn sgil defnyddio nwy

Targed: Defnyddio 3% yn llai o nwy ar bob safle, ar sail data 2016-17

Amcan: Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio LPG

Targed: Defnyddio 1% yn llai o LPG yng Nglynllifon, ar sail data 2016-17

Amcan: Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio ar fusnes y Grŵp

Targed: Lleihau 1% ar y milltiroedd a deithiwyd ar fusnes y Grŵp yn 2016-17

Amcan: Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith

Targed: Parhau i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith

Amcan: Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith

Targed: Parhau i hyrwyddo'r cynllun rhannu ceir ymhlith staff a myfyrwyr

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau

Targed: Defnyddio 1% yn llai o ddŵr, ar sail data 2016-17

System Rheoli'r Amgylchedd

Adroddiad Blynyddol 2016/17

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau

Targed: Lleihau 1% ar faint o bapur a ddefnyddiwyd yn ystod 2016-17

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnodd

Targed: Cynyddu'r gwastraff a ailgylchir, gan ailgylchu 99% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Llandrillo, 55% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 96% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Menai.

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd

Targed: Parhau i blannu gwrychoedd a choed cymysg erbyn mis Awst 2018 a thu hwnt

Amcan: Codi ymwybyddiaeth staff o'r amgylchedd

Targed: Cynnal sgysiau personol a sgysiau grŵp ym maes Codi Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd mewn adrannau

Amcan: Ymgysylltu â'r gymuned leol a chyfrannu ati.

Targed: Dysgwyr y Grŵp i gynnal o leiaf 25 o weithgareddau lle maent yn defnyddio'u sgiliau yn y gymuned leol yn 2017/18

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r ynni a ddefnyddir yn adeiladau, ac o gludiant a da byw, ar sail data 2016/17